





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rheoli'r Rhwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2021-2022





Cynnwys

	Tud
<u>Cyflwyniad</u>	4
<u>Strwythur yr Adroddiad</u>	5
<u>Cynnydd ac Uchafbwyntiau</u>	5
<u>Tabl 1: Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith MPAau 2021-22 – Crynodeb o'r Cynnydd</u>	7

Y Coronafeirws (COVID-19)

Fe wnaeth y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig ddewis a sgorio camau gweithredu yn ystod COVID-19, ond cyfyngwyd ar yr hyn y bu modd ei wneud o ran rhai o'r camau hynny gan ganllawiau COVID-19 Llywodraeth Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu hynny.

Cyflwyniad

Dyma'r pedwerydd Adroddiad Blynyddol ar Reoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPAau) gan y **Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig**. Ei ddiben pennaf yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am hynt y camau gweithredu sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig 2021 i 2022 (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel Cynllun Gweithredu 2021-22).

Roedd Cynllun Gweithredu 2021-2022 yn crynhoi'r camau gweithredu pwysigaf ar lefel y rhwydwaith ar gyfer gwella'r ffordd y rheolir MPAau gyda'r nod o wella neu gynnal cyflwr y rhwydwaith MPAau yng Nghymru. Roedd pob cam gweithredu yn cefnogi o leiaf un o'r pum egwyddor reoli a nodir yn **Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru 2018-2023** (Blwch 1) (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y Fframwaith).

Y Fframwaith sy'n pennu'r cyfeiriad ar gyfer rheoli'r rhwydwaith MPAau yng Nghymru ac mae Cynllun Gweithredu 2021-2022 yn arf allweddol i Awdurdodau Rheoli allu arwain y gwaith o wireddu'r weledigaeth dymor hir ar gyfer rheoli'r rhwydwaith:

Mae rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru o dan reolaeth effeithiol a chyson sy'n diogelu bywyd gwyllt a chynefinoedd morol safleoedd, gan arwain at gyflawni neu gynnal cyflwr ffafriol nodweddiadol safleoedd. Mae'r gwaith o reoli'r rhwydwaith yn cefnogi ecosystemau morol gwydn sydd, yn eu tro, yn helpu i greu moroedd glân, diogel, iach, cynaliadwy, cynhyrchiol a biolegol amrywiol yng Nghymru. Mae Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cael eu gwerthfawrogi am y buddion hirdymor y maen nhw'n eu darparu i bobl Cymru, trwy amddiffyn eu treftadaeth naturiol a diwylliannol gyfoethog.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn cynnwys manylion allbynnau a chanlyniadau gweithgareddau rheoli, ac yn ystyried sut mae camau gweithredu yn cyfrannu at wella'r modd y rheolir MPAau ac at wella neu gynnal drwy hynny gyflwr y rhwydwaith MPAau gan gefnogi'r weledigaeth hon. Mae'n gyfle hefyd i sefydliadau dynnu sylw at waith sydd wedi cael ei wneud gan Awdurdodau Rheoli ar lefel y rhwydwaith ac ar lefel leol sy'n ategu camau gweithredu Cynllun Gweithredu 2021-2022¹.

Wrth baratoi'r Adroddiad Blynyddol hwn, ystyriodd y Grŵp Llywio ffyrdd i asesu a chloriannu'n well y cyfraniad a wnaed gan Gynllun Gweithredu 2021-2022 at gyflwr cyffredinol y rhwydwaith MPAau yng Nghymru. Mae'r Grŵp Llywio wedi ymgorffori'r wybodaeth hon yn ei waith i ddatblygu Cynllun Gweithredu Rheoli Rhwydwaith MPAau 2022-2023, a bydd yn ei defnyddio i lywio fersiynau o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gweithredu yn y dyfodol.

¹ Term a ddefnyddir i gyfeirio at y sefydliadau sydd â chyfrifoldebau statudol mewn perthynas ag unrhyw fath o Ardal Forol Warchodedig, neu sy'n berchen ar lawer iawn o wely'r môr neu dir arfordirol. Mae hyn yn cynnwys awdurdodau perthnasol a chymwys fel y'u diffinnir gan y Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (2017), y Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth (2017) ac awdurdodau cyhoeddus fel y'u diffinnir yn Neddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009). Gweler Atodiad 3 o'r Fframwaith Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig i gael rhestr o Awdurdodau Rheoli Cymru: lyw.cymru/fframwaith-rheoli-rhwydwaith-ardaloedd-morol-gwarchodedig-cymru

Strwythur yr Adroddiad

Mae'r Awdurdodau Rheoli wedi cyflwyno manylion y gwaith sy'n cael ei wneud i gyflawni pob un o'u camau gweithredu a nodir yng Nghynllun Gweithredu 2021-2022. Mae Tabl 1 yn crynhoi camau gweithredu, allbynnau a chanlyniadau pob un. Fel rhan o'r broses hon, lluniodd Grwpiau Awdurdodau Perthnasol

(RAGs)² Safleoedd Morol Ewropeaidd adroddiad i'r Grŵp Llywio gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am y gweithgareddau lleol sy'n digwydd o fewn Safleoedd Morol Ewropeaidd. Gellir gweld yr adroddiad llawn ar wefan Llywodraeth Cymru

llyw.cymru/ardaloedd-morol-gwarchodedig-0

Cynnydd ac Uchafbwyntiau

Rhoddodd y Grŵp Llywio flaenoriaeth i 23 o gamau gweithredu yng Nghynllun Gweithredu 2021-2022 i Awdurdodau Rheoli eu cyflawni. **Roedd pob cam gweithredu'n cefnogi o leiaf un o'r pum egwyddor reoli (gweler Blwch 1)** ac roedd y broses flaenoriaethu yn canolbwyntio ar y camau sy'n gwella'r ffordd y rheolir y rhwydwaith MPAAu, ac yn gwella neu'n cynnal drwy hynny gyflwr y rhwydwaith.

Mae'r camau gweithredu'n amrywiol eu natur, o weithgareddau ar raddfa rhwydwaith i ymyriadau penodol a phrosiectau peilot lleol. Mae nifer ohonynt yn rhai fydd yn barhaus eu natur, er enghraifft yn ymwneud â phrosesau rheoleiddio neu asesu. Mae eraill yn dasgau neu'n brosiectau ar wahân gyda dyddiadau dechrau a gorffen pendant, yn aml yn para mwy na deuddeng mis. Bydd y gwaith parhaus a'r prosiectau a'r tasgau hynny sy'n para dros flwyddyn yn cael eu trosglwyddo i Gynllun Gweithredu 2021-22, ynghyd ag unrhyw gamau newydd y rhoddir blaenoriaeth iddynt. Mae nifer o'r camau parhaus, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â chynllunio a chydsynio, er nad ydynt bob amser yn weladwy i gynulleidfaoedd, yn parhau i ddiogelu'r rhwydwaith mewn ffordd hanfodol ac yn golygu llawer iawn o waith rheoli.

Wrth ystyried allbynnau a chanlyniadau pob un o'r camau gweithredu, mae'r Grŵp Llywio wedi gallu mynd ati'n strategol i adolygu eu cyfraniad, bob yn un a chyda'i gilydd, at weledigaeth ac amcanion y Fframwaith. I grynhoi, mae'r Awdurdodau Rheoli wedi gwneud llawer iawn o waith eleni o ran:

- cryfhau'r broses gwneud penderfyniadau a datblygu a chynnal strategaethau;
- cryfhau'r dystiolaeth; a
- gwella ein dealltwriaeth o'r pwysau ar nodweddion MPAAu a'r amgylchedd morol ehangach.

Dyma enghreifftiau o waith a wnaed ar gamau gweithredu Cynllun Gweithredu 2020-21 a'u cyfraniadau ar lefel rhwydwaith ac ar lefel leol at bum egwyddor rheoli'r Fframwaith:

Camau gweithredu y tynnir sylw atynt:

- Eleni, lluniodd CNC ddau adroddiad newydd a chyfres o ffeithluniau ar Garbon Glas fel mae'n ymwneud â rhwydwaith MPAAu Cymru.
- Mae Fforwm Arfordirol Sir Benfro, mewn partneriaeth ag eraill, wedi creu ap dwyieithog sy'n arddangos bywyd gwyllt arfordirol a morol ac yn cynnig arweiniad ar sut i aflonyddu llai ar fywyd gwyllt morol ar hyd holl Arfordir Cymru.
- Mae CNC wedi cwblhau prosiect sy'n gwella adroddiadau asesu cyflwr. Erbyn hyn, mae gan nodweddion pob ACA ac AGA yn MPAAu Cymru ddangosyddion ar gyfer adrodd am eu cyflwr. Mae CNC yn cynllunio sut i gynnal sesiadau cyflwr newydd dros y tair blynedd nesaf.
- Eleni, cwblhawyd dau adroddiad desg newydd yn ymwneud â phalu am abwyd yng Nghymru. Mae'r adroddiadau hyn yn ymwneud â rheoli a chasglu tystiolaeth ynglŷn â phalu am abwyd a gosod arwydd gwybodaeth yn y Gann, sef man sy'n boblogaidd iawn ymhlith pobl sy'n palu am abwyd.

² RAG Pen Llŷn a'r Sarnau; RAG Bae Ceredigion; RAG Sir Benfro Forol; RAG Bae ac Aberoedd Caerfyrddin; RAG Cymdeithas Aber Afon Hafren.

- Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru wedi cwblhau cynllun pilot blwyddyn i ddatblygu prosiect gwyddoniaeth dinasyddion yn ymwneud â chasglu data. Bydd yn helpu i fonitro rhywogaethau estron goresgynnol (INNS) Cymru a nodweddion y rhwydwaith MPAAu.
- Mae CNC wedi cwblhau adolygiad strategol o bori ar forfeydd heli ar draws y rhwydwaith MPAAu. Caiff yr adroddiad hwn ei ddefnyddio yn awr i geisio pennu camau gweithredu ar lawr gwlad.
- Mae swyddogion ACA EMS wedi rhoi cynnig ar ddefnyddio dronau i arolygu sbwriel morol, morloi a chynefinoedd morwellt yn ACA Pen Llŷn a'r Sarnau. Credir bod y dull hwn yn ddull llai ymwithiol ar gyfer arolygu ardaloedd daearyddol mawr.
- Aethpwyd ati i adolygu codau morol ar gyfer safleoedd yng Ngogledd Cymru yng ngoleuni'r pwysau newidiol ar yr ardal, megis cynnydd o ran defnyddio cerbydau sgïo jet. Mae posterï a thaflenni – rhai cyffredinol a rhai'n ymwneud â rhywogaethau penodol – wedi cael eu llunio a byddant yn cael eu gosod mewn ardaloedd arfordirol allweddol yng Ngogledd Cymru.

Gweithredu yn y Dyfodol

Bydd Fframwaith Rheoli'r Rhwydwaith MPA Presennol yn dod i ben yn 2023, ac yna bydd yn cael ei ddiweddarau. Bydd effeithlonrwydd y fframwaith yn cael ei adolygu gan ddefnyddio camau gweithredu a gwblhawyd a'u heffeithiau ar rwydwaith MPAAu Cymru. Gallai'r Grŵp Llywio hefyd ystyried cynnwys targedau ac allbynnau meintiol ar gyfer y fframwaith, fodd bynnag, nid yw'r broses hon wedi cael ei diffinio hyd yn hyn. Mae'n debyg y bydd y Fframwaith yn destun ymgynghoriad, felly bydd y Grŵp Llywio yn gwneud cyhoeddiad maes o law.

Mae'r Grŵp Llywio yn parhau i gefnogi'r grŵp rhanddeiliaid o dan **Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG)**. Mae'r Is-grŵp Cadernid Morol yn fforwm ar gyfer cynnal trafodaethau manylach ynghylch rheoli MPAAu, ymhlith ardaloedd morol eraill, ac mae'n galluogi ymgysylltu ehangach wrth ddatblygu Cynlluniau Gweithredu yn y dyfodol. Bu'n fwy o her cydweithio â'r grŵp eleni oherwydd cyfyngiadau COVID-19.

Tabl 1

Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith MPAAu 2021-22 – Crynodeb o'r Cynnydd:

Integreiddio rheolaeth gynaliadwy ar y rhwydwaith MPAAu â phroses y Datganiadau Ardal

Y Corff sy'n Arwain: Cyfoeth Naturiol Cymru

Amserlen Gyflawni: Parhaus

Disgrifiad o'r Gweithredu:

Mae'r Cynllun Gweithredu Rheoli MPAAu wedi'i ymgorffori yn y **Datganiadau Ardal** a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021.

Bydd y gwaith o gyflawni'r Datganiadau Ardal yn canolbwyntio ar amrywiaeth o gamau gweithredu sy'n berthnasol i reoli MPAAu ledled Cymru. Mae nifer o'r camau gweithredu perthnasol wedi'u hymgorffori eisoes yng **Nghynllun Gweithredu Rheoli'r Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPA)** ar gyfer 2021-22.

Y ffocws ar gyfer 2021-22 oedd ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid er mwyn cytuno ar gamau cydweithredol y gallwn eu cymryd i gyflawni camau gweithredu o fewn y themâu canlynol:

- Atebion sy'n seiliedig ar natur ac addasu yn y parth arfordirol
- Cynorthwyo i roi cynllunio morol ar waith
- Meithrin gwytnwch yr amgylchedd morol.

Crynodeb o'r Cynnydd:

Bu Llythrennedd Morol yn ffocws cryf i'r Datganiad Ardal morol eleni. Gellir disgrifio Llythrennedd Morol fel “deall eich dylanwad chi ar y môr, a dylanwad y môr arnoch chi”. Trwy ddeall gwerthoedd ac agweddau pobl tuag at ein harfordiroedd a'n moroedd, ynghyd â gweithio tuag at gynyddu'r gwerth a rydd y gymdeithas ar yr amgylchedd morol, gellir dylanwadu ar ymddygiadau a fydd yn ategu dulliau mwy cynaliadwy o reoli'r amgylchedd morol a gweithredu er ei fudd.

Ar y cyd â Defra a'r Ocean Conservation Trust, cynhaliodd CNC arolwg er mwyn deall yn well beth oedd gwerthoedd ac agweddau pobl yng Nghymru. Disgwylir i'r adroddiad gael ei gyhoeddi ym mis Medi. Hefyd, rydym wedi cynnal dau weithdy ar-lein i ddatblygu cynllun gweithredu blaenoriaeth ar gyfer yr hyn a allai neu a ddylai ddigwydd yng Nghymru i ategu Llythrennedd Morol. Mae'r Datganiad Ardal Morol yn ategu'r gwaith o ddatblygu grŵp gorchwyl a gorffen o dan Grŵp Cyngori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol, er mwyn bwrw ymlaen â gwaith yn ymwneud â Llythrennedd Morol yng Nghymru.

Rydym hefyd wedi cynorthwyo i ddatblygu prosiectau o dan y rhaglen Rhwydweithiau Natur, gyda'r nod o wella cyflwr Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru a'r modd y caiff y rhwydwaith hwnnw ei reoli.

Datblygu dull o gynnal asesiadau gwell a chyfnodol o gyflwr MPAau

Y Corff sy'n Arwain: Cyfoeth Naturiol Cymru

Amserlen Gyflawni: Cwblhawyd

Disgrifiad o'r Gweithredu:

Bydd y prosiect hwn, a ariennir gan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF), yn datblygu dangosyddion a phroses ar gyfer gwella'r modd yr adroddir am gyflwr nodweddion gwarchodedig oddi mewn i rwydwaith MPAau Cymru.

Dyma brif weithgareddau'r prosiect:

- Datblygu cyfres o ddangosyddion adrodd fel y gellir cynnal asesiadau a llunio adroddiadau mwy effeithlon ynglŷn â chyflwr nodweddion MPAau
- Datblygu canllawiau cytunedig yn nodi sut y dylid asesu cyflwr safleoedd ar bob MPAau
- Treialu methodoleg newydd ar safle(oedd)/nodwedd(ion) MPAau Cymru.

Crynodeb o'r Cynnydd:

Mae'r prosiect hwn wedi'i gwblhau erbyn hyn. Daeth i ben ddiwedd mis Mai 2022. Gwnaed cynnydd sylweddol eleni, a gellir crynhoi'r cynnydd hwn fel a ganlyn:

- Hyd at ddiwedd mis Awst 2021, cynhaliwyd 40 o weithdai ar lefel nodweddion lle'r ymdriniwyd â holl nodweddion ACA ac AGA.
- Erbyn hyn, mae gan holl nodweddion MPAau Cymru ddangosyddion ar gyfer adrodd am eu cyflwr, ac mae'r rhain yn cynnwys priodoleddau a thargedau.
- Rhwng Hydref 2021 a Mawrth 2022, cynhaliwyd 63 o asesiadau peilot yn ymwneud â nodweddion unigol 10 AGA a 5 ACA.
- Cynhaliwyd 18 o gyfarfodydd er mwyn helpu i ddatblygu agweddau technegol ar y broses asesu.
- Hyd at fis Mawrth 2022, gwelir bod 59 aelod o staff o bob rhan o CNC wedi cyfrannu mwy nag 800 o oriau staff at y broses. Mae hyn yn arwydd o raddfa a maint y prosiect hwn, a'r adnoddau sy'n angenrheidiol i sicrhau ei lwyddiant.

Gan fod y cam gweithredu hwn wedi'i gwblhau erbyn hyn, bydd y cam nesaf (sef asesu cyflwr MPAau) yn parhau ar ffurf prosiect newydd a ariennir fel rhan o elfen forol cronfa Rhwydweithiau Natur Llywodraeth Cymru.

Datblygu ymhellach raglen monitro forol yn seiliedig ar risgiau ar draws y rhwydwaith MPAau

Y Corff sy'n Arwain: Llywodraeth Cymru

Amserlen Gyflawni: Parhaus

Disgrifiad o'r Gweithredu:

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda CNC, y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) ac arbenigwyr eraill mewn meysydd gwyddoniaeth a pholisi er mwyn sicrhau dulliau monitro integredig a chost-effeithiol. Bydd y gwaith monitro hwn yn cyflawni ein rhwymedigaethau cadwraeth natur, bydd yn darparu'r dystiolaeth ar gyfer asesu a chanfod tueddiadau yn iechyd ac amrywiaeth fiolegol ein moroedd, a bydd yn ategu dulliau cynaliadwy o reoli ein hadnoddau naturiol.

Tra bydd y rhaglen newydd yn cael ei rhoi ar waith, bydd y rhaglen fonitro gyfredol yn parhau i gael ei chyflawni.

Crynodeb o'r Cynnydd:

Tra bydd y gwaith monitro statudol yn parhau, mae Llywodraeth Cymru yn archwilio rhaglen fonitro a roddir ar waith ledled y DU ac a seilir ar opsiynau monitro penodedig i ategu'r rhwydwaith MPAau. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnal trafodaethau gyda Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig ynglŷn â sut i gyflawni hyn.

Rhaglen Gwella Cyflwr y Rhwydwaith MPAAu

Y Corff sy'n Arwain: Cyfoeth Naturiol Cymru

Amserlen Gyflawni: Parhaus

Disgrifiad o'r Gweithredu:

Mae'r rhaglen waith barhaus hon yn archwilio camau rheoli posibl, pan fo'u hangen, er mwyn ymdrin â'r pwysau a'r bygythiadau sy'n wynebu'r rhwydwaith MPAAu.

Eleni, bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar weithio gyda swyddogion rheoli lleol i ddatblygu prosiectau sy'n deillio o gamau gweithredu presennol a newydd, ac archwilio llwybrau ariannu posibl ar gyfer y flwyddyn nesaf. Bydd y prosiectau'n rhoi blaenoriaeth i gamau gweithredu a all wella cyflwr MPAAu neu ein helpu i ddeall yn well beth yw'r pwysau a'r bygythiadau allweddol sy'n eu hwynebu.

Crynodeb o'r Cynnydd:

Drwy gydol 2021/22, mae'r Rhaglen Gwella Cyflwr MPAAu wedi canolbwyntio'n arbennig ar y canlynol:

- **Astudiaethau achos rheoli MPAAu:** Mae'r astudiaethau achos yn dangos y gwaith a wnaed dros y blynyddoedd, gan fanylu ar brosiectau penodol yn ymwneud â chynnal neu wella MPAAu Cymru. Nod yr astudiaethau achos yw annog dysgu ac ymdrin â materion cyffredin er mwyn helpu i feithrin gwytnwch ecosystemau morol drwy'r rhwydwaith.
- **Canolbwyntio ar ansawdd dŵr:** Gan fod ansawdd dŵr yn bwysau allweddol ac yn fygythiad i gyflwr nodweddion MPAAu, canolbwyntiwyd ar sicrhau bod y camau gweithredu presennol ar safleoedd yn gyfredol. Ymhellach, gwelir bod camau gweithredu newydd wedi'u creu pan fo hynny'n berthnasol, er mwyn ymdrin â'r pwysau a'r bygythiadau parhaus sy'n wynebu nodweddion morol. Bydd y gwaith o ddatblygu, blaenoriaethau a chyflawni'r camau gweithredu hyn yn parhau.
- **Canolbwyntio ar Llamhidyddion:** Mae camau gweithredu newydd ar lefel safleoedd wedi cael eu cwblhau ar gyfer tair ACA Llamhidydd yng Nghymru. Bellach, mae gwaith wedi dechrau ar flaenoriaethu'r camau gweithredu hyn a'u datblygu'n brosiectau ar gyfer cyflawni yn y dyfodol.
- **Datblygu prosiectau:** Mae'r rhaglen hon yn parhau i weithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol i ddatblygu a chyflawni prosiectau ar gyfer gwella cyflwr MPAAu. Mae hyn yn cynnwys bwydo gwybodaeth sy'n deillio o'r prosiect hwn i feysydd gwaith eraill, megis y rhaglen Rhwydweithiau Natur newydd a ariennir gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi ariannu 10 prosiect a gyflawnir rhwng 2022-25. Ymhellach, rydym wedi cael arian trwy gyfrwng y Grŵp Llywio MPAAu i gynnal ymchwiliad blwyddyn i effaith safleoedd tirlenwi arfordirol ar nodweddion MPAAu.

Datblygu canllawiau cyson a chymesur er mwyn gwella cyngor ar waith achos, a chefnogi'r gwaith o roi Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ar waith

Y Corff sy'n Arwain: Cyfoeth Naturiol Cymru, y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC)

Amserlen Gyflawni: Parhaus

Disgrifiad o'r Gweithredu:

Diben y gwaith hwn yw datblygu canllawiau er mwyn ategu dulliau cyson a chymesur o asesu effeithiau gweithgareddau rheoleiddiedig ar nodweddion gwarchodedig MPAAu Cymru.

Mae canllawiau'n cael eu datblygu er mwyn cynorthwyo i weithredu polisiau Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru wrth wneud penderfyniadau e.e. canllawiau ar drwyddedu morol a pholisiau penodol.

Crynodeb o'r Cynnydd:

Gwnaed cynnydd sylweddol eleni o ran llunio a diweddarau canllawiau, yn cynnwys:

- Egwyddorion sy'n ategu adfer a chyfoethogi mewn cynlluniau datblygu morol ac arfordirol.
- Gwybodaeth i ategu'r broses Asesu Amgylcheddol mewn perthynas â datblygiadau môr-lynnoedd llanw yng Nghymru.
- Datganiad sefyllfa ar reoli gwaddodion.
- Arolygon adar ar y môr ar gyfer datblygiadau morol.

Gellir gweld y rhain i gyd ar dudalennau gwe canllawiau morol CNC, neu byddant yn cael eu cynnwys yno cyn bo hir: <https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/marine/?lang=cy>

Datblygu methodolegau i asesu bregusrwydd nodweddion y rhwydwaith gan ddefnyddio data o'r system monitro cychod o'r tir (iVMS)

Y Corff sy'n Arwain: Llywodraeth Cymru

Amserlen Gyflawni: Cwblhawyd

Disgrifiad o'r Gweithredu:

Gan ddefnyddio setiau data iVMS o bell, sef setiau data graddfa fach sy'n bodoli eisoes, byddwn yn archwilio'r rhyngweithio rhwng nodweddion i bennu addasrwydd y cyfryw ddata (llusg a statig) fel y gellir asesu bregusrwydd nodweddion y rhwydwaith. Mae gwaith yn y maes hwn yn angenrheidiol ar gyfer achub y blaen ar gyflwyno systemau iVMS yng Nghymru a dadansoddi data yn y dyfodol. Trwy ddatblygu'r sylfaen wybodaeth a'r prosesau hyn yn awr, bydd modd arwain at fanteision uniongyrchol ar fregusrwydd y rhwydwaith MPAAu i bysgota.

Crynodeb o'r Cynnydd:

Cynhaliwyd rhywfaint o waith archwilio cychwynnol trwy ddefnyddio mwy na 12 o setiau data iVMS a gasglwyd gan bysgodfeydd cregyn bylchog, yn bennaf i brofi'r fethodoleg a'r dichonoldeb. Gan y bydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith gynnwys iVMS ar gyfer cychod o dan 12m, rhagwelir y bydd rhagor o dreialon yn cael eu cynllunio. Fodd bynnag, bydd angen data digonol yn gyntaf, felly go brin y bydd hyn yn digwydd tan 2023 fan leiaf.

Rheoli MPAau trwy brosesau caniatáu ac asesu rheoleiddiol

Y Corff sy'n Arwain: Llywodraeth Cymru, pob awdurdod rheoli

Amserlen Gyflawni: Parhaus

Disgrifiad o'r Gweithredu:

Nod y gwaith hwn yw sicrhau y bydd prosesau cydsynio rheoleiddiedig, prosesau asesu a phrosesau penderfynu sy'n galluogi gweithredu, yn ystyried yr effeithiau posibl ar y rhwydwaith MPAau ac yn cynnwys mesurau lliniaru priodol pan fo angen.

Crynodeb o'r Cynnydd:

Eleni, parhaodd CNC i benderfynu ar Drwyddedau Morol gan ystyried yr effeithiau posibl ar MPAau yn yr holl benderfyniadau. Pan fo angen, cafodd mesurau lliniaru priodol eu cynnwys fel amod(au) yn y Trwyddedau Morol hynny.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru nifer o esemptiadau o dan ddeddfwriaeth pysgodfeydd ar gyfer gwahanol fathau o ymchwil wyddonol. Roedd nifer o'r esemptiadau hyn yn gofyn am Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, a gadarnhaodd na fyddai'r esemptiadau'n cael unrhyw effaith ar rywogaethau na chynefinoedd gwarchodedig.

Gwella mapiau o ehanger a dosbarthiad cynefinoedd Atodiad I

Y Corff sy'n Arwain: Cyfoeth Naturiol Cymru

Amserlen Gyflawni: Parhaus (wrth i ddata newydd ddod i'r amlwg)

Disgrifiad o'r Gweithredu:

Mae'r gwaith hwn yn cyflwyno tystiolaeth allweddol i ategu'r modd y rheolir ACA (e.e. cyngor ar waith achos) a gwaith adrodd ar lefel genedlaethol. Yn bennaf, mae hyn yn cynnwys coladu data trydydd parti (e.e. data aml-belydr UKHO) i ddiweddarau mapiau.


Crynodeb o'r Cynnydd:

Yn y gorffennol, canolbwyntiwyd ar wella mapiau o ehanger a dosbarthiad cynefinoedd morfeydd heli. Mae'r map o Ehanger Morfeydd Heli yn set ddata gynhwysfawr seiliedig ar safleoedd ar gyfer Cymru, lle caiff data o amryfal ffynonellau (Cam 1/2 / WFD/ Erthygl 17) ei ddwyn ynghyd mewn un map am y tro cyntaf. Bydd hyn yn symleiddio unrhyw waith dadansoddi a wneir yn y dyfodol ar gynefinoedd morfeydd heli (e.e. enillion neu golledion), a hefyd bydd yn llywio dulliau o reoli'r cynefin.

Mae'r mapiau wrthi'n cael eu gwirio ar hyn o bryd a dylent fod yn barod i'w dosbarthu'n ehanger erbyn diwedd 2022. Mae mapiau o gynefinoedd Atodiad I eraill ar gael ar **Lle: Porth-Daear i Gymru** a **MapDataCymru** (a fydd yn disodli Lle).



Map enghreifftiol o ehanger Morfa Heli, Gogledd Gŵyr.



Map enghreifftiol o Adolygiad strategol o bori ar nodweddion morfeydd heli yn MPAau Cymru a datblygu camau gweithredu i wella'u cyflwr: Morfa Heli Gwendraeth, Ystad y Weinyddiaeth Amddiffyn, Pen-bre.

Sut i Reoli'r Rhwydwaith MPAAu ar gyfer Carbon Glas *Newydd ar gyfer 2021-22*

Y Corff sy'n Arwain: Cyfoeth Naturiol Cymru

Amserlen Gyflawni: Cwblhawyd

Disgrifiad o'r Gweithredu:

Mewn adroddiad tystiolaeth diweddar, datgelwyd y rôl bwysig sydd gan arfordiroedd a moroedd Cymru fel dalfa garbon (carbon glas). Fodd bynnag, nid ydym eto yn deall cyfraniad y rhwydwaith MPAAu at storio ac atafaelu carbon. Byddwn yn gwella ein dealltwriaeth o hyn trwy wneud y canlynol:

- Cyfrifo faint o garbon a gaiff ei storio a'i atafaelu gan gynefinoedd yn y rhwydwaith MPAAu.
- Llunio adroddiad ar gyfer dadansoddi opsiynau, a fydd yn ymdrin â'r canlynol:
 - Camau rheoli ymarferol cyfredol a fydd yn hybu storio ac atafaelu carbon yn MPAAu Cymru.
 - Bylchau mewn tystiolaeth a rhwystrau ar gyfer camau rheoli penodol a dulliau gweithredu y gellid eu hystyried yn y dyfodol.
 - Opsiynau ar gyfer llwybrau gweithredu mewn perthynas â rheoli cyfleoedd carbon glas yn rhwydwaith MPAAu Cymru.

Crynodeb o'r Cynnydd:

Eleni, lluniodd CNC ddau adroddiad newydd a chyfres o ffeithluniau ar Garbon Glas fel mae'n ymwneud â rhwydwaith MPAAu Cymru. Teitl yr adroddiad cyntaf yw *Potensial Carbon Glas y Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru*, a'i nod yw gwella dealltwriaeth o'r adnodd carbon glas yn rhwydwaith ACA Cymru trwy fesur cyfraniad y rhwydwaith at storio ac atafaelu carbon. Amcangyfrifwyd bod cyfanswm cyfraniad nodweddion Atodiad I ACA Cymru at storio carbon oddeutu 11 Mt o garbon yn 10cm uchaf y gwaddodion.

Roedd yr ail adroddiad yn canolbwyntio ar *Ddeall sut y gall rheoli rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cymru gyfrannu at warchod a gwella carbon glas*. Aeth yr adroddiad hwn ati i adolygu mesurau rheoli posibl sy'n hyrwyddo storio ac atafaelu carbon yn nodweddion cynefinoedd Atodiad I ACA Cymru trwy ddefnyddio enghreifftiau lleol, rhanbarthol a byd-eang. Pennir amrywiaeth o opsiynau rheoli posibl ar gyfer pob ACA, ynghyd â gwerthusiad lefel uchel o ba mor ymarferol fyddai eu gweithredu a nodir y manteision ehangach a allai ddod i ran yr ecosystem yn sgil pob mesur.

Cynnal cysylltiadau rhwng Cynllun Gweithredu'r Rhwydwaith MPAAu a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt yn lleol, pan fo'r rhain yn bodoli, a chefnogi'r gwaith o chwilio am gyfleoedd ariannu

Y Corff sy'n Arwain: Grwpiau Awdurdodau Perthnasol

Amserlen Gyflawni: Parhaus

Disgrifiad o'r Gweithredu:

Bydd y cam gweithredu hwn yn tynnu sylw at gamau lleol perthnasol, gan gysylltu â nhw – yn cynnwys camau lleol penodol a nodir yn y Cynllun Gweithredu blynyddol, fel y bo'n briodol.

Crynodeb o'r Cynnydd:

Mae'r gwaith a wneir gan Swyddogion Safleoedd Ewropeaidd ar lefel y safle trwy gyfrwng Grwpiau Awdurdodau Perthnasol (RAG) yn amrywiol ei natur. Gellir cael gwybodaeth lawnach am y gwaith a wnânt mewn adroddiad a luniwyd ar gyfer y Grŵp Llywio, lle sonnir am eu cynnydd ar gyfer 2021-22.

Rhoddwyd nifer o brosiectau ar waith ar lefel safleoedd yn ystod 2020-21. Mae'r prosiectau hyn yn anelu naill ai at

- leihau'r effeithiau ar nodweddion y safle gan helpu i weithio tuag at gyflwr ffafriol
- cynnal cyflwr y nodwedd
- ymchwilio i effeithiau
- neu ganolbwyntio ar addysg ac ymwybyddiaeth.

Sylwer: ceir cysylltiad uniongyrchol rhwng yr oriau a weithiwyd gan y swyddogion safleoedd a'r arian a gafwyd, ac adlewyrchir hyn yn y nifer o brosiectau a gyflawnwyd ar bob safle.

Yn ychwanegol at fynd i'r afael â gwaith prosiect, mae'r holl swyddogion safleoedd yn cynnal gwaith rheoli mwy cyffredinol ar y safleoedd ac yn mynd i'r afael â gwaith cyswllt, yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Cynnal y RAG a Grwpiau Cyswllt
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Codi ymwybyddiaeth a gwaith addysg (yn cynnwys trefnu digwyddiadau ac ymweliadau ag ysgolion)
- Canfod a sicrhau arian, yn cynnwys datblygu prosiectau
- Pwynt cyswllt ar gyfer MPAAu
- Cynnig cyngor a gwybodaeth
- Hyrwyddo codau morol lleol
- Gwaith cyswllt a gwaith partneriaeth
- Gweithio gyda swyddogion safleoedd eraill er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y rhwydwaith
- Cymryd rhan mewn amryfal grwpiau er mwyn sicrhau y caiff MPAAu eu cynrychioli a hyrwyddo'r arfer o weithio ar y cyd e.e. Grŵp Llywio Rheoli MPAAu, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol.

Mae hyn oll yn ategu'r cysylltiadau rhwng gweithredu ar lefel y rhwydwaith a gweithgareddau rheoli MPAAu lleol, gan alluogi'r naill brosiect i ddysgu gan y llall a hyrwyddo gwaith a gyflawnir ar lefel y safle.

Casglu abwyd yn rhwydwaith MPAAu Cymru: Casglu tystiolaeth a rheoli opsiynau *Newydd ar gyfer 2021-22*

Y Corff sy'n Arwain: Cyfoeth Naturiol Cymru

Amserlen Gyflawni: Cwblhawyd


Disgrifiad o'r Gweithredu:

Gwyddom fod palu am abwyd yn effeithio mewn sawl ffordd ar amryw byd o safleoedd trwy'r rhwydwaith MPAAu. Bydd y prosiect hwn yn defnyddio canlyniadau arolwg drôn a gynhaliwyd ar safleoedd yng Nghymru lle mae palu am abwyd yn boblogaidd (gweithredu blaenorol) er mwyn datblygu opsiynau rheoli a phrosiectau ar lefel y safle a fydd yn helpu i reoli'r gweithgaredd hwn yn fwy effeithiol a gwella cyflwr y safle. Hefyd, bydd y prosiect yn helpu i wella'r dulliau presennol a ddefnyddir i reoli abwyd yn y Gann.

Crynodeb o'r Cynnydd:

Mae allbynnau'r cam gweithredu hwn yn cynnwys dau adroddiad desg. Mae'r adroddiadau hyn yn ymwneud â rheoli a chasglu tystiolaeth ynglŷn â phalu am abwyd a gosod arwydd gwybodaeth yn y Gann, sef man sy'n boblogaidd iawn ymhlith pobl sy'n palu am abwyd.

- **Adroddiad Tystiolaeth:** Lluniwyd dau adroddiad yn ymwneud â phalu am abwyd. Mae *Casgliad Tystiolaeth Palu am Abwyd – Adolygu Methodoleg*, Adroddiad Rhif 603' ar gael yn awr ar wefan CNC **Cyfoeth Naturiol Cymru/Blaenoriaethu tystiolaeth forol ac arfordirol**. Mae'n arfarnu gwahanol ddulliau o gasglu tystiolaeth, yn cynnwys dronau, arsylwadau yn y maes, camerâu a delweddau o'r awyr. Mae'r ail adroddiad, sef *'Adroddiad Opsiynau Rheoli Cloddio am Abwyd*, Adroddiad Rhif 602' yn gwerthuso'r safleoedd mwyaf sensitif yng Nghymru o ran palu am abwyd, ac mae'n cyflwyno ac yn arfarnu opsiynau rheoli posibl sydd ar gael ar y safleoedd hyn. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir.
- **Arwydd palu am abwyd:** Mae arwydd dwyieithog newydd ar gyfer Fflatiau Gann – sef safle gwarchodedig a chanddo gynefin graean lleidiog pwysig – wedi cael ei ddylunio a'i osod ar y safle. Mae'r arwydd hwn yn disodli fersiwn flaenorol, gan dynnu sylw at bwysigrwydd y safle a chyflwyno cyngor clir i balwyr ynglŷn â sut i leihau niwed i'r safle. Bydd yr arwydd yn cael ei osod wrth ddwy fynedfa sy'n arwain at y traeth.



Arwydd y Gann – llun agos ohono a lluniau ohono ar y safle

Adolygiad strategol o bori ar nodweddion morfeydd heli yn MPAAu Cymru a datblygu camau gweithredu i wella'u cyflwr *Newydd ar gyfer 2021-22*

Y Corff sy'n Arwain: Cyfoeth Naturiol Cymru

Amserlen Gyflawni: Cwblhawyd

Disgrifiad o'r Gweithredu:

Bydd y prosiect hwn yn gweithio tuag at gyflwyno argymhellion ar gyfer ymdrin â phori ar forfeydd heli, a hynny er mwyn gwella a chynnal cyflwr nodweddion morfeydd heli MPAAu ledled y rhwydwaith MPAAu. Dyma'r cam cyntaf ar gyfer sicrhau dulliau priodol o reoli pori trwy goladu tystiolaeth a chreu rhestr flaenoriaethol a realistig o gamau rheoli y gellid mynd i'r afael â nhw mewn prosiectau dilynol, yn ddelfrydol wrth weithio gyda/trwy gyfrwng sefydliadau partner, ffermwyr a rheolwyr tir.

Crynodeb o'r Cynnydd:

Mae adroddiad sy'n dwyn y teitl '*Strategic review of grazing on saltmarsh features in Welsh MPAs and development of actions to improve condition*' bron wedi'i gwblhau. Cafodd CNC ddrafft terfynol gan PONT, y contractwyr, ym mis Mawrth, ynghyd â haenau mapiau. Mae'r drafft hwn wrthi'n cael ei wirio er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch ac er mwyn ei gofrestru fel Adroddiad Tystiolaeth Amgylcheddol. Cyfyngir ar ddosbarthiad yr adroddiad oherwydd materion sensitif yn ymwneud â rheoli tir a pherchnogaeth tir.

Erbyn hyn, caiff yr adolygiad strategol o bori ei ddefnyddio i helpu i lunio rhaglen waith ar gyfer swyddogion prosiect Cronfa'r Rhwydwaith Natur Forol fel y gellir rhoi camau penodol ar waith ar lawr gwlad.

Mynd i'r afael ag effeithiau wasgfa arfordirol ar MPAAu

Y Corff sy'n Arwain: Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru

Amserlen Gyflawni: Parhaus

Disgrifiad o'r Gweithredu:

Bydd y prosiect hwn yn parhau i gasglu tystiolaeth er mwyn deall effeithiau'r wasgfa arfordirol ar ein rhwydwaith MPAAu, yn cynnwys parhau i gymryd rhan mewn prosiectau a thrafodaethau ledled y DU.

Bydd gwaith yn parhau yng Nghymru i fwrw ymlaen â phrosiectau creu cynefinoedd er mwyn darparu cynefinoedd arfordirol cydbwysu mewn achosion pan ragwelir y bydd cynefin yn cael ei golli yn sgil gwaith ar gynlluniau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol.

Crynodeb o'r Cynnydd:

Mae CNC newydd gwblhau Nodyn Cyfarwyddyd 062 ar Asesu'r Wasgfa Arfordirol a bydd ar gael yn allanol cyn bo hir. Mae'r Nodyn Canllaw hwn yn esbonio sut i gymhwyso safbwynt Llywodraeth Cymru (**Prosiectau Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol a'r Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd: nodyn atodol | LLYW.CYMRU**) at y wasgfa arfordirol a'r Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd at yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, gan ddefnyddio adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sef 'What is Coastal Squeeze' (**What is coastal squeeze? – GOV. UK (www.gov.uk)**) yn ogystal â'r wybodaeth a gynhwysir mewn Cynlluniau Rheoli Traethlin. Eleni, bydd CNC yn rhoi prosiect tair blynedd ar waith i wella ein dealltwriaeth o'r modd y gallai'r rhwydwaith MPAAu ddirywio yn sgil y wasgfa arfordirol, gan adeiladu ar waith a wnaed yn flaenorol ar gyfer ACA Pen Llŷn a'r Sarnau.

Mae CNC yn parhau i fwrw ymlaen â phortffolio o brosiectau'n ymwneud ag addasiadau posibl i'r arfordir, er mwyn bodloni'r gofynion 'cynefinoedd cydbwysu' o dan y Rhaglen Genedlaethol Creu Cynefinoedd. Megis dechrau y mae rhai o'r prosiectau hyn, ond mae prosiectau eraill wedi cyrraedd y cam Achos Busnes Amlinellol ac eisoes yn ymgysylltu â rhanddeiliaid. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am brosiectau sydd ar y gweill yma **Cyfoeth Naturiol Cymru / Prosiectau rheoli perygl llifogydd**

Cyflawni'r camau gweithredu â blaenoriaeth o fewn y Cynllun Gweithredu Sbwriel Môr lle maent yn fuddiol i'r rhwydwaith MPAau yng Nghymru

Y Corff sy'n Arwain: Partneriaeth Moroedd Glân Cymru, Llywodraeth Cymru

Amserlen Gyflawni: Parhaus

Disgrifiad o'r Gweithredu:

Mae Partneriaeth Moroedd Glân Cymru yn gyfrifol am ddatblygu a chyflawni Cynllun Gweithredu Sbwriel Môr Cymru.

Mae'r cynllun tair blynedd presennol yn cydweddu'n agos â strategaethau tebyg sy'n canolbwyntio ar ddelio â sbwriel tir yng Nghymru. Mae'r Cynllun Gweithredu Sbwriel Môr yn ategu gwaith ehangach i fynd i'r afael â Phlastigau Untro a mentrau gwastraff yng Nghymru, gan roi dull 'atal yn y tarddiad' ar waith.

Bydd y bartneriaeth yn gwneud y canlynol:

- Adolygu arolygon blynyddol ar lanhau traethau a gynhelir ledled Cymru.
- Trafod a chynnig sut i ymdrin ag eitemau sbwriel sy'n destun pryder ac sy'n effeithio ar yr amgylchedd morol.

Mae prosiect a ariennir gan un o grantiau'r EMFF yn ategu'r Cynllun Gweithredu Sbwriel Môr. Mae'r prosiect hwn wedi cyrraedd ei ail gam ac mae'n ymwneud ag:

- Ymgysylltu ag ysgolion uwchradd er mwyn gweld pa mor ymarferol fyddai ymgorffori sbwriel môr yn eu gwaith Eco-ysgolion.
- Hefyd, bydd y prosiect yn gweithio gyda'r diwydiant twristiaeth er mwyn gweld pa mor ymarferol fyddai cynnig eco-wobr trwy gynllun peilot.

Mae Partneriaeth Moroedd Glân Cymru yn parhau i gefnogi cynnig Llywodraeth Cymru i gynnal cynllun peilot ar gyfer ailgylchu offer pysgota sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes – sef un o gamau gweithredu allweddol y Cynllun Gweithredu Sbwriel Morol.

Crynodeb o'r Cynnydd:

Mae'r bartneriaeth yn parhau i gefnogi a dylanwadu ar nifer o bolisïau allweddol, megis: plastigau untro, microblastigau, offer pysgota a newid ymddygiad. Mae siaradwyr allweddol wedi rhoi cyflwyniadau gerbron y grŵp yn nodi gwahanol ffyrdd o atal a rheoli sbwriel môr trwy gyfrwng eu priod gynlluniau.

Mae cynlluniau glanhau traethau wedi parhau i gynyddu gyda chymorth, ar ôl llacio'r rheoliadau Covid-19. Mae trafodaethau ynghylch microblastigau wedi cynyddu, gan gydnabod bod microblastigau ymhlith y prif eitemau y deuir o hyd iddynt wrth lanhau traethau.

Mae'r bartneriaeth wedi cynorthwyo i ddatblygu cynllun yng Nghymru ar gyfer ailgylchu offer pysgota sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes. Lanswyd y prosiect hwn yn 2021. Mae'r bartneriaeth wedi bod yn hollbwysig o ran pennu meysydd allweddol i'w targedu a hefyd o ran cefnogi'r elfen 'sbwriel ar draethau'.

Prosiect Sbwriel Cymunedol

Y Corff sy'n Arwain: Grŵp Awdurdod Perthnasol PLAS

Amserlen Gyflawni: Mawrth 2023

Disgrifiad o'r Gweithredu:

Y bwriad eleni oedd defnyddio'r adolygiad o brosiectau sbwriel cymunedol a gynhaliwyd ym mlwyddyn 1 i gyflawni camau gweithredu Cynlluniau Rheoli EMS a'r Bartneriaeth Moroedd Glân. Oherwydd Covid-19, addaswyd ail flwyddyn y prosiect hwn er mwyn ceisio ymchwilio i effaith COVID-19 ar grwpiau casglu sbwriel lleol, a hefyd er mwyn gweld faint o sbwriel a sut fath o sbwriel y deuir o hyd iddo o fewn cyrion arfordirol Ardaloedd Morol Gwarchodedig a ledled y wlad, ochr yn ochr ag unrhyw newid mewn ymddygiad, er enghraifft rhagor o eitemau untro fel masgiau.

Bydd allbynnau gwaith penodol ar gyfer eleni yn cynnwys:

- Data monitro a ddeilliodd o ddigwyddiadau casglu sbwriel.
- Gwybodaeth am y canllawiau arferion gorau ar gyfer grwpiau casglu sbwriel tra buont yn gweithio o dan amgylchiadau COVID-19.
- Deall effeithiau COVID ar sbwriel a llygredd môr.
- Deall effeithiau COVID ar ymddygiad unigolion o ran defnyddio eitemau untro a thaflu sbwriel.
- Astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer gwaith yn y dyfodol, gan roi cynnig ar ddefnyddio dronïau, deallusrwydd artiffisial a camerâu amlsbectrol i ganfod gwahanol fathau o blastig.

Crynodeb o'r Cynnydd

Gweithiodd y prosiect gyda gweithredwr dronïau cymwysedig a thrwyddedig i archwilio'r defnydd y gellid ei wneud o ddronïau i fonitro sbwriel, ynghyd â gallu dronïau, camerâu amlsbectrol a deallusrwydd artiffisial i ganfod gwahanol fathau o blastig.

Yn sgil cyllid 'mewn nwyddau/gwasanaethau' gan Brifysgol Aberystwyth, bu modd inni hefyd fonitro morloi a morwellt fel rhan o'r gwaith hwn. Lluniwyd pum adroddiad yn sgil y prosiect hwn.

Prosiect Adfer Wystrys Brodorol Cymru

Y Corff sy'n Arwain: Cyfoeth Naturiol Cymru

Amserlen Gyflawni: Mawrth 2023

Disgrifiad o'r Gweithredu:

Ffocws Prosiect Adfer Wystrys Brodorol Cymru, a ariennir gan yr EMFF, yw sefydlu a monitro cyfres o blotiau ar gyfer adfer wystrys brodorol yn nyffordd Aberdaugleddau. Bydd allbynnau'r ymarfer hwn yn ymdrin â chwestiynau ynghylch dulliau o adfer wystrys brodorol yng Nghymru a pha mor ymarferol yw eu hadfer, yn enwedig mewn perthynas â'u gallu i oroesi, y stoc fagu, y dwysedd stocio, ac effeithiau'r clefyd *Bonamia* a'r rhywogaeth estron *Crepidula fornicata*, yn ogystal â monitro effeithiau cadarnhaol posibl yn cynnwys cyfoethogi cynefinoedd a chynnydd yng nghyfansoddiad rhywogaethau cysylltiedig.

Crynodeb o'r Cynnydd:

Canolbwyntiwyd eleni ar waith monitro. Aethpwyd ati i fonitro plotiau benthig mewn amgylchiadau rhynglanwol yn Beggars Reach a chewyll wystrys dyrchafedig yn Burton a Beggars Reach. Gwnaed hyn ar ddau achlysur, sef Gwanwyn a Hydref 2021. Ymhellach, yn ystod Hydref 2021 aethpwyd ati i fonitro plotiau benthig mewn amgylchiadau islanwol yn Burton a Beggars Reach.

Cafodd dwysedd a maint yr wystrys eu mesur a'u cofnodi ar gyfer yr holl blotiau, ac yna cawsant eu cymharu â'r mesuriadau sylfaenol a gymerwyd yn ystod Hydref 2020 er mwyn asesu gallu'r wystrys i oroesi a thwf yr wystrys a adleoliwyd: Dyma ganlyniadau allweddol y gwaith monitro:

- Gwelwyd y cyfraddau goroesi uchaf yn y cewyll dyrchafedig o gymharu â'r plotiau rhyngwladol ac islanwol; ond efallai fod hyn wedi digwydd gan fod y llanw wedi symud yr wystrys o'r plotiau benthig
- Roedd y cyfraddau goroesi'n uwch yn y plotiau rhynglanwol nag yn y plotiau islanwol
- Roedd y cyfraddau goroesi yn Burton yn uwch nag yn Beggars Reach, ond roedd y gwrthwyneb yn wir yn achos y plotiau islanwol, oherwydd ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw wystrys a adleoliwyd yn unrhyw un o'r plotiau islanwol yn Burton
- Yn y plotiau islanwol yn Beggars Reach y gwelwyd y twf cyfartalog uchaf (hyd a lled) o gymharu â'r holl blotiau adfer eraill. Y cewyll a ddangosodd y twf cyfartalog isaf, yn enwedig yn Burton
- Roedd dwysedd yr wystrys yn y plotiau rhynglanwol ac islanwol yn sylweddol is na dwysedd yr wystrys a adleoliwyd. Ond awgryma'r dystiolaeth nad marwolaethau yn unig a oedd yn gyfrifol am hyn, a bod y llanw wedi symud yr wystrys o'r plotiau
- Gwelwyd bod silod wedi ymsefydlu ym mhlottedau rhynglanwol Beggars Reach, ond ni chofnodwyd bod silod wedi ymsefydlu yn y plotiau islanwol.

Cynhaliwyd treialon ar sefydlu silod yn Beggars Reach a Burton er mwyn asesu lefel y silod sy'n ymsefydlu yn Aberdaugleddau. Ychydig iawn o silod sy'n ymsefydlu yn Aberdaugleddau ar hyn o bryd, gyda dim ond dau fath o silod wystrys brodorol i'w cael ar y systemau ymsefydlu. Er na wyddom yr union resymau pam nad yw silod yn ymsefydlu'n llwyddiannus ar y systemau, mae'r gwaith hwn yn tynnu sylw at bwysigrwydd y prosiectau adfer sydd ar waith er mwyn cynorthwyo poblogaethau wystrys brodorol i adfer.

Ap Dwyieithog Cod Morol Cymru *Newydd ar gyfer 2021-22*

Y Corff sy'n Arwain: Fforwm Arfordir Sir Benfro

Amserlen Gyflawni: Cwblhawyd

Disgrifiad o'r Gweithredu:

Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar ddatblygu/adeiladu ar Ap Cod Morol Sir Benfro er mwyn creu un Ap Cod Morol dwyieithog hollgynhwysfawr ar gyfer Cymru gyfan. Bydd yr Ap Cod Morol integredig ar gyfer Cymru gyfan yn cynnwys codau ymddygiad/ardaloedd rhanbarthol gwahanol. Bydd yr ap yn cael ei gynhyrchu ar y cyd â Swyddogion MPAAu ac aelodau o grŵp Moroedd Gwyllt Cymru, fel y bo'n briodol.

Crynodeb o'r Cynnydd:



Mae Fforwm Arfordir Sir Benfro wedi bod yn gweithio'n agos mewn partneriaeth gyda Swyddogion Ardaloedd Morol Gwarchodedig, gyda chyfraniad gan aelodau o Grŵp Moroedd Gwyllt Cymru. Mae'r bartneriaeth wedi llwyddo i greu ap dwyieithog sy'n arddangos bywyd gwyllt arfordirol a morol ac mae'n cyflwyno canllawiau ar sut i aflonyddu llai ar fywyd gwyllt morol ar hyd holl Arfordir Cymru.

Mae ap **Crwydro Arfordir Cymru – Wales Coast**

Explorer yn galluogi unrhyw un sy'n ymweld ag Arfordir Cymru i wneud y canlynol:

- **Adnabod bywyd gwyllt arfordirol** a dysgu am fywydau hynod y creaduriaid trwy ddarllen yr wybodaeth a ddarperir.
- **Dod yn wyddonydd-ddinesydd** – helpu'r Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol i greu darlun o fioamrywiaeth Cymru trwy alluogi'r defnyddwyr i **roi gwybod am y bywyd gwyllt a welant**.
- Adnabod **rhywogaethau goresgynnol**.
- **Archwilio'r arfordir**, gydag arweiniad ar sut i **fwynhau ein bywyd gwyllt arbennig heb aflonyddu arno**. Cyflwynir gwybodaeth am godau morol rhanbarthol er mwyn rhoi dull seiliedig ar leoedd ar waith.
- **Dod o hyd i safleoedd archaeolegol** ar hyd yr arfordir, o longddylliadau i gaerau hynafol – a defnyddio'r ap i rannu'r pethau a welir gyda Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru!

Mae'r Ap wedi cael ei lansio'n llwyddiannus a gellir ei lawrlwytho'n rhad ac am ddim ar bob plattfform symudol.



Lluniau o bryd a gwedd yr ap ar ddyfeisiau symudol

Lleihau'r aflonyddu ar famaliaid ac adar morol

Y Corff sy'n Arwain: Grŵp Awdurdod Perthnasol PLAS

Amserlen Gyflawni: Cwblhawyd

Disgrifiad o'r Gweithredu:

Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar dri phrif faes:

1. Sicrhau bod yr holl godau sirol generig yn gyson a bod yr un pellter yn cael ei nodi. Llunio cyfres safonol o ddeunyddiau i ategu'r codau morol. Bydd hyn yn cynnwys:
 - Canllawiau ar amryfal weithgareddau a allai gael effaith
 - Taflenni a chanllawiau adnabod rhywogaethau er mwyn cynnig ychwaneg o wybodaeth am y cod morol a pham mae ei angen.
2. Adolygu effeithiolrwydd y paneli a ddatblygwyd yn ystod Blwyddyn 1 y prosiect mewn perthynas ag aflonyddu ar forloi bach.
3. Gweithio gyda Fforwm Arfordir Sir Benfro ynglŷn â'r posibilrwydd o ddatblygu'r Ap cod morol.

Crynodeb o'r Cynnydd:

Mae allbynnau'r prosiect hwn yn cynnwys:

- Adroddiad yn ymwneud ag adolygu'r codau morol ar gyfer canolbarth i ogledd Cymru. Roedd hyn hefyd yn cynnwys holiadur a anfonwyd at randdeiliaid ac, yn ei dro, helpodd yr holiadur hwn i ddiwygio'r codau.
- Codau morol diwygiedig x 4 ar gyfer canolbarth i ogledd Cymru. Fe'i gelwir bellach yn God Morol Gogledd a Gorllewin Cymru ac mae'n berthnasol i bob sir.
- Rydym wedi mynd i'r afael â gwaith i ddylunio paneli, taflenni A5 a chynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r holl awdurdodau lleol wedi mabwysiadu codau diwygiedig ac wedi ariannu'r gwaith o argraffu deunyddiau ar gyfer eu sir.
- Taflen yn ymwneud â morloi.
- Taflen yn ymwneud â'r cod glan môr.
- Logo a brand y Bartneriaeth MPAau.

Datblygu cynllun boddlogelwch sy'n ymwneud â rhywogaethau estron goresgynol (INNS) morol

Y Corff sy'n Arwain: Cyfoeth Naturiol Cymru, Grŵp Awdurdod Perthnasol PLAS

Amserlen Gyflawni: Medi 2022

Disgrifiad o'r Gweithredu:

Bydd y prosiect peilot hwn a ariennir gan yr EMFF yn cyflawni cynllun boddlogelwch ar gyfer ACA Pen Llŷn a'r Sarnau (PLAS). Bydd hefyd yn llywio'r gwaith o ddatblygu a gweithredu cynlluniau boddlogelwch ar draws y rhwydwaith MPAAu.

Bydd modd cyflawni hyn trwy wneud y canlynol:

- Gweithio gyda rhanddeiliaid er mwyn mynd i'r afael â'r prif ffyrdd o gyflwyno a lledaenu rhywogaethau estron goresgynol morol, yn cynnwys gweithio gyda physgotwyr lleol i weld sut gallai rhywogaethau estron goresgynol morol effeithio ar eu pysgodfeydd
- Datblygu technegau ar gyfer asesu a rhagweld effeithiau rhywogaethau estron goresgynol ar gynefinoedd a rhywogaethau
- Meithrin capasiti i amddiffyn bioamrywiaeth y môr a lleihau'r risgiau sy'n wynebu nodweddion gwarchodedig.

Crynodeb o'r Cynnydd:

Mae'r prosiect hwn yn mynd rhagddo'n dda. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r prosiect wedi:

- Cynnal pedwar digwyddiad.
- Anfon holiaduron.
- Darparu diweddariadau a chynnal cyfarfodydd ar gyfer rhanddeiliaid, a chaiff cyfraniad y rhanddeiliaid hyn ei ddefnyddio i lunio cynlluniau gweithredu'r prosiectau.
- Llunio pecyn cymorth yn ymwneud â rhywogaethau estron goresgynol morol Cymru ar gyfer digwyddiadau a gynhelir yn y dyfodol.
- Llunio dau adroddiad tystiolaeth lle ystyrir effaith rhywogaethau estron goresgynol morol a lle pennir ardaloedd yng Nghymru lle ceir perygl mawr y bydd rhywogaethau estron goresgynol yn cael eu cyflwyno ac yn lledaenu. Gellir dod o hyd i'r rhain ar y dudalen we hon: [Cynllun Boddlogelwch PLAS | Pen Llŷn a'r Sarnau \(penllynarsarnau.co.uk\)](https://www.penllynarsarnau.co.uk)
- Ymchwilio i ddefnyddio eDNA i fonitro rhywogaethau estron goresgynol morol – mae contract DNA amgylcheddol ar y gweill ar hyn o bryd.

Ymhellach, arweiniodd y prosiect at lunio canllaw drafft ar rywogaethau estron goresgynol morol ar gyfer Cymru ynghyd â chynllun gweithredu drafft ar gychod hamdden. Disgwylir i'r rhain gael eu cwblhau yn nes at ddiwedd y prosiect.

Datblygu Strategaeth Gwarchod Dolffiniaid a Llamidyddion ledled y DU

Y Corff sy'n Arwain: Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur

Amserlen Gyflawni: Parhaus

Disgrifiad o'r Gweithredu:

Nod y gwaith hwn yw datblygu dull cyson trwy'r DU ar gyfer rheoli'r pwysau a'r bygythiadau sy'n wynebu naw o rywogaethau dolffiniaid, llamidyddion a morfilod bach a welir yn fwyaf cyffredin yn nyfroedd y DU, oddi mewn ac oddi allan i MPAAu.

Crynodeb o'r Cynnydd:

Mae Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig yn parhau i weithio ar y cyd ar y Strategaeth, gan anelu at lunio ymateb i'r ymgynghoriad cyn gynted â phosibl.

Cynllun gweithredu i leihau nifer yr adar sy'n cael eu dal yn ddamweiniol fel sgil-ddalfa yn nyfroedd y DU

Y Corff sy'n Arwain: Cyfoeth Naturiol Cymru, y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur, Llywodraeth Cymru

Amserlen Gyflawni: Mawrth 2022

Disgrifiad o'r Gweithredu:

Nod y prosiect tair blynedd hwn, a roddir ar waith ledled y DU, yw cyflwyno dull cydlynol o ddeall sgil-ddalfeydd adar môr ym mhysgodfeydd y DU, a'u lleihau lle bo angen.

Dyma amcanion y prosiect yn 2021-22:

- Cyhoeddi 'Cynllun Gweithredu'.
- Sicrhau ansawdd y pecynnau cymorth a'u cyflwyno i'r defnyddwyr.
- Bydd gwaith monitro yn ymwneud â "dadansoddi'r bylchau" yn cael ei gynnal.
- Bydd adroddiadau'n ymwneud â dulliau lliniaru a "mannau problemus" yn cael eu cadarnhau.

Yn rhyngwladol, mae'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur wedi bod yn helpu OSPAR i gontractio partïon i ddiffinio/cwmpasu dangosydd posibl yn ymwneud â sgil-ddalfeydd adar môr, er mwyn paratoi ar gyfer Adroddiad Statws Ansawdd OSPAR yn 2023.

Crynodeb o'r Cynnydd:

Mae'r cynllun gweithredu ar sgil-ddalfeydd adar môr wedi'i gynnwys ym Menter Lliniaru Sgil-ddalfeydd (BMI) y DU. Mae BMI y DU yn cynnwys amcanion lefel uchel, gyda chamau gweithredu awgrymedig yn ymwneud ag adar môr, creaduriaid sy'n perthyn i deulu'r morfil, a morloi. Mae'r gwaith a wneir i ddatblygu'r strategaeth hon yn dilyn ymarfer casglu data a oedd yn anelu at wella dealltwriaeth ledled y DU.

Bydd BMI y DU yn gam gweithredu newydd o fewn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Rheoli'r Rhwydwaith MPAau.

Asesu, a lle bo angen, rheoli effaith gweithgareddau pysgota masnachol ar MPAau

Y Corff sy'n Arwain: Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru

Amserlen Gyflawni: Parhaus

Disgrifiad o'r Gweithredu:

Nod y prosiect yw sicrhau bod y dulliau a ddefnyddir i reoli pysgodfeydd masnachol mewn Safleoedd Morol Ewropeaidd yn diogelu nodweddion gwarchodedig yn ddigonol, yn unol â Chyfarwydddeb Adar a Chyfarwydded Cynefinoedd yr UE.

Mae'r prosiect yn asesu'r rhyngweithio rhwng rhywogaethau a chynefinoedd ar y naill law a'r gwahanol fathau o offer pysgota ar y llaw arall. Defnyddir yr asesiadau hyn i weld a oes angen mesurau rheoli pysgodfeydd yn y dyfodol.

Eleni, bydd gweithgareddau'r prosiect yn cynnwys:

- 9 asesiad yn ymwneud â mamaliaid vs rhwydi gosod
- 40 asesiad yn ymwneud â chynefinoedd vs offer llusg symudol
- 20 o asesiadau pellach y bydd y grŵp llywio'n cytuno arnynt.

Crynodeb o'r Cynnydd:

Rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022, cwblhaodd CNC 69 o asesiadau (9 ar gyfer mamaliaid morol ac offer gosod, a 60 ar gyfer cynefinoedd ac offer a lusgir ar hyd gwaelod y môr). Caiff yr adroddiadau eu cyhoeddi mewn sypiau ar wefan Llywodraeth Cymru. Gweler isod y ddau swp cyntaf a gyhoeddwyd:

- Cewyll a thrapiau: [Prosiect Asesu Gweithgareddau Pysgodfeydd Cymru: cewyll a thrapiau | LLYW.CYMRU](#) ac [Assessing Welsh Fisheries Activities project: pots and traps | GOV.WALES](#)
- Treillongau Demersal: [llyw.cymru/prosiect-asesu-gweithgareddau-pysgodfeydd-cymru-treillongau-demersal](#) a [gov.wales/assessing-welsh-fisheries-activities-project-demersal-trawls](#)

Gweithredu dull o orfodi pysgodfeydd sy'n seiliedig ar risg

Y Corff sy'n Arwain: Llywodraeth Cymru

Amserlen Gyflawni: Parhaus

Disgrifiad o'r Gweithredu:

Mae'r gwaith hwn, sy'n cynnwys gorfodi ac erlyn oddi mewn i barth Cymru a'i MPAau, yn gweithredu dull gorfodi sy'n seiliedig ar risg ac a gaiff ei arwain gan wybodaeth, gan ddefnyddio gwelliannau technolegol i gynnal y ffocws ar weithgareddau uchel eu risg mewn pysgodfeydd.

Mae'n ffordd dda o atal gweithgareddau pysgota anghyfreithlon a chyfrannu at barhau i ddiogelu nodweddion MPAau a chyflwr cyffredinol y rhwydwaith.

Crynodeb o'r Cynnydd:

Yn 2021-22, er i'r pandemig COVID-19 leihau'n sylweddol nifer y gweithgareddau gorfodi a gynhaliwyd ym Mharth Cymru:

- Cynhaliodd llongau patrolio pysgodfeydd 89 o ddiwrnodau patrolio
- Archwiliodd swyddogion gorfodi morol 185 o gychod pysgota a chynnal 272 o archwiliadau glanio
- Cynhaliwyd 45 archwiliad o drwyddedau morol
- Llwyddodd Llywodraeth Cymru i erlyn 1 achos o dorri'r gyfraith trwy'r llysoedd, a hefyd cyflwynwyd 2 gosb benodedig a sawl rhybudd. Mae nifer o droseddau ychwanegol yn dal i fynd trwy'r system farnwrol.

Prosiect Shoresearch Cenedlaethol *Newydd ar gyfer 2021-22*

Y Corff sy'n Arwain: Ymddiriedolaeth Natur Cymru, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru

Amserlen Gyflawni: Cwblhawyd

Disgrifiad o'r Gweithredu:

Bydd y cynllun peilot blwyddyn hwn yn datblygu prosiect gwyddoniaeth dinasyddion ar gyfer casglu data a fydd yn helpu gyda'r gwaith o fonitro rhywogaethau estron goresgynnol yng Nghymru a nodweddion y Rhwydwaith MPAAu.

Yn y cynllun peilot:

- Bydd Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yn datblygu pecyn hyfforddi penodol ar gyfer gwirfoddolwyr er mwyn datblygu eu sgiliau cynnal arolygon ac adnabod rhywogaethau.
- Datblygu cysylltiadau â sefydliadau a phrosiectau eraill fel Prosiect Bioddiogelwch Pen Llŷn a'r Sarnau.
- Gwneud yn siŵr bod mecanweithiau effeithiol ac effeithlon ar waith mewn perthynas â llif data.
- Dysgu ar sail gwaith cydweithredu Shoresearch yn y gorffennol rhwng Ymddiriedolaeth Natur Lloegr a Natural England.

Y nod yw creu cynnyrch gwyddoniaeth dinasyddion pwrpasol yn ymwneud â Shoresearch a fydd yn gweithio i ddiwallu anghenion Cymru ac a fydd o fudd i'r ffordd mae'r Rhwydwaith MPAAu yn cael ei reoli trwy wella'r broses o gasglu data.

Crynodeb o'r Cynnydd:

Rhoddwyd dull cydweithredol ar waith i adolygu methodolegau ac adnoddau presennol Shoresearch er mwyn gweld pa mor addas yw'r arolwg o ran diwallu anghenion strategaeth monitro cyflwr Cymru ar gyfer INNS a nodweddion (rhywogaethau a chynefinoedd) SoDdGA ac ACA fel y gellir canolbwyntio'r gwaith casglu data ar anghenion Cyfoeth Naturiol Cymru. Ochr yn ochr â hyn, crëwyd pecyn hyfforddi penodol ar gyfer gwirfoddolwyr er mwyn galluogi'r cyfranogwyr i ddatblygu eu sgiliau arolygu ac adnabod trwy ddilyn rhaglen haenog a fyddai'n eu galluogi i gamu yn eu blaen ac ennill y gallu i neilltuo lefelau arbenigedd penodol er mwyn cynorthwyo i reoli ansawdd y data. Cafodd y platfform rheoli data cyfredol, sy'n seiliedig ar Indicia, ei brofi a'i werthuso er mwyn sicrhau llif data effeithiol ac effeithlon. Ymhellach, cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau hyfforddi ac arolygon gyda gwirfoddolwyr i brofi adnoddau a phennu grŵp craidd o wirfoddolwyr ar gyfer Shoresearch Cymru.

Mae llawer mwy o wybodaeth ar gael ar dudalennau gwe'r prosiect, yn cynnwys blogiau misol (cliciwch ar 'Blogiau Shoresearch' ar y dudalen hon): <https://www.northwaleswildlifetrust.org.uk/cy/what-we-do-landing-page/wildlife-conservation/our-projects/shoresearch-arolygon-rhynglanwol>

Rhaglen Fioddiogelwch Ynys Adar Môr y DU *Newydd ar gyfer 2021-22*

Y Corff sy'n arwain: RSPB, Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru

Amserlen Gyflawni: Mawrth 2023

Disgrifiad o'r Gweithredu:

Gan weithio gyda phartneriaid, mae'r RSPB yn arwain y gwaith o gyflawni'r prosiect 'Biosecurity for LIFE' (2018-2023) trwy ddatblygu a gweithredu mesurau bioddiogelwch effeithiol i ddiogelu 42 AGA Ynys Adar Môr y DU rhag mamaliaid ysglyfaethus sydd wedi cael eu cyflwyno. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae'r RSPB a'i bartneriaid yn datblygu'r cynllun 'AfterLIFE', sy'n rhan o'r prosiect 'Biosecurity for LIFE', i sicrhau gwaddol y prosiect trwy gynnal yr ymwybyddiaeth a godwyd a'r mesurau bioddiogelwch effeithiol, a thrwy barhau â'r broses werthuso ac adolygu fel y gellir gwella ac ehangu'r mesurau hyn ar draws holl ynysoedd alltraeth y DU lle mae bioamrywiaeth bwysig.

Crynodeb o'r Cynnydd:

Parhau i gefnogi a gweithio gyda Gweithgor Rhaglen Bioddiogelwch Ynys Adar Môr y DU er mwyn sicrhau dull cydgysylltiedig ar gyfer diogelu AGAau Ynys Adar y Môr rhag mamaliaid ysglyfaethus sydd wedi cael eu cyflwyno.